



CANLLAW I DDEFNYDDWYR PORTH AR-LEIN CITB

Gwneud cais am grant mewn swmp



Adran 1. Mewngofnodwch

- 1 Cliciwch ar y botwm '**Mewngofnodwch**' ar gornel dde uchaf y porth.
- 2 Byddwch yn cael eich cyfeirio at y dudalen Mewngofnodwch.

citb Cartref | Cymraeg (Welsh) - **Mewngofnodi**

Croeso i Wasanaethau Ar-lein CITB

Mae'r porth ar-lein hwn yn eich galluogi i gyflwyno a gweld ceisiadau grant, cyrchu adroddiadau grant, ac awdurdodi grantiau awtomataidd.

Rydym yn gweithio ar ychwanegu mwy o wasanaethau at y wefan hon dros amser. Wrth gael eu datblygu efallai y bydd rhai dolenni isod yn eich ailgyfeirio i'r gwasanaeth yn ein porth etifeddiaeth ar-lein, ac efallai y gofynnir i chi fewngofnodi eto.

Ceisiadau grant

Gwnewch gais am grant
Gwnewch gais ar-lein am grantiau prentisiaethau, cymwysterau, neu gyrsiau byr.

Fy ngheisiadau grant
Gweld eich ceisiadau grant ar-lein sydd wedi'u cadw neu eu cyflwyno.

Gwasanaethau grant ychwanegol

Gall y dolenni hyn eich ailgyfeirio i'n porth etifeddiaeth mewn tab neu ffenestr newydd.

Awdurdodi grant awtomataidd
Awdurdodi taliad grant presenoldeb, neu ddweud wrthym am newid i hawl.

Cais am adroddiad grant
Cais am adroddiadau grant a chyrchu cyfrineiriau ar gyfer adroddiadau wedi'u hamgryptio.

Datganiad grant
Gweld eich datganiad grant.

Grantiau cyrsiau byr
Gweld capiau ac adroddiadau sy'n ymwneud â grantiau cyrsiau byr.

3 Rhowch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair.

4 Cliciwch ar '**Mewngofnodwch**' i gael mynediad i'r porth.



The screenshot shows a registration form for citb. At the top is the citb logo. Below it is the heading 'Mewngofnodwch gyda'ch cyfeiriad ebost'. There are two input fields: 'Cyfeiriad Ebst' and 'Cyfrinair'. Below the second field is a link: [Wedi anghofio eich cyfrinair?](#). A blue button labeled 'Mewngofnodwch' is positioned below the link. At the bottom left, it says 'Dim cyfrif?' followed by a link: [Cofrestrwch nawr](#).

▶ Gwneud cais am grant mewn swmp

Mae'r canllaw hwn yn mynd â chi drwy sut i gyflwyno cais am grant swmp ac atodi tystiolaeth.

Mae ceisiadau swmp ar gyfer pan fydd gennych nifer o ddysgwyr neu gyflawniadau ac eisiau gwneud cais amdanynt i gyd ar unwaith.

Os hoffech ddefnyddio templed taenlen Excel i lanlwytho sawl cofnod ar y porth ar yr un pryd, **ewch i Adran 3**. Wrth ddefnyddio taenlen Excel, argymhellir defnyddio cyfrifiadur/gliniadur.

Os hoffech fewnbynnu cofnodion un ar y tro yn uniongyrchol ar y porth, dilynwch y camau a amlinellir yn Adran 2.

Adran 2. Gwneud cais am grant – cofnodion porth unigol

- 1 Dewch o hyd a chliciwch ar y deilsen sydd wedi'u labelu '**Gwnewch gais am grant**' ar brif dudalen y porth, o dan **Ceisiadau Grant**.

Croeso i Wasanaethau Ar-lein CITB

Mae'r porth ar-lein hwn yn eich galluogi i gyflwyno a gweld ceisiadau grant, cyrchu adroddiadau grant, ac awdurdodi gais. Rydym yn gweithio ar ychwanegu mwy o wasanaethau at y wefan hon dros amser. Wrth gael eu datblygu efallai y bydd gwasanaeth yn ein porth etifeddiaeth ar-lein, ac efallai y gofynnir i chi fewngofnodi eto.

Ceisiadau grant

Gwnewch gais am grant

Gwnewch gais ar-lein am grantiau prentisiaethau, cymwysterau, neu gyrsiau byr.

Fy ngheisiadau grant

Gweld eich ceisiadau grant ar-lein sydd wedi'u cadw neu eu cyflwyno.

2

Dewiswch y grant rydych yn ymgeisio amdano.

Os ydych yn gwneud cais am grant '**cyflawniad cwrs byr**', cewch eich ailgyfeirio i dudalen wahanol. Ewch i citb.co.uk/cy-gb/lefi-grantiau-a-chyllid/grantiau-a-chyllid/ am help gyda'r grant hwn.

Parhewch yn y canllaw hwn ar gyfer pob grant arall.

Grantiau Prentisiaeth

Presenoldeb Prentisiaeth

Rydym yn talu grantiau am fynychu Prentisiaethau cymeradwy sy'n canolbwyntio ar y sgiliau adeiladu craidd sydd eu hangen ar draws diwydiant.

Cyflawniad Prentisiaeth

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni Prentisiaethau cymeradwy sy'n canolbwyntio ar y sgiliau adeiladu craidd sydd eu hangen ar draws y diwydiant.

Grantiau cymwysterau

Cyflawniad cymhwyster byr

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni cymwysterau byr cymeradwy (sy'n cymryd llai na blwyddyn i'w cwblhau).

Presenoldeb cymhwyster hir

Rydym yn talu grantiau am fynychu cymwysterau lefel uwch cymeradwy (sy'n cymryd mwy na blwyddyn i'w cwblhau).

Cyflawniad cymhwyster hir

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni cymwysterau lefel uwch cymeradwy (sy'n cymryd mwy na blwyddyn i'w cwblhau).

I Mewn i Waith

Rydym yn talu grantiau am brofiad gwaith a gwblhawyd fel rhan o gwrs Addysg Bellach cymeradwy, a chyflogaeth uniongyrchol wedi hynny.

Tystysgrif Crefft Uwch (Yr Alban)

Rydym yn talu grantiau ar gyfer presenoldeb a chyflawniad ar gwrs sy'n arwain at Dystysgrif Crefft Uwch yr Alban.

Grantiau cwrs byr

Cyflawniad cwrs byr

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni cyrsiau byr cymeradwy sy'n canolbwyntio ar y sgiliau adeiladu craidd sydd eu hangen ar draws y diwydiant.

3

Unwaith y byddwch ar y dudalen grant a ddewiswyd, darllenwch y canllawiau a gwnewch yn siŵr bod gennych bopeth sydd ei angen arnoch cyn dechrau ar eich cais.

4

Cliciwch ar y botwm '**Gwneud cais swmp**' a byddwch yn cael y dudalen swmp gais a ddewiswyd.

5

Mae ceisiadau swmp yn ymddangos ar y sgrin fel rhesi mewn tabl. I ychwanegu eich dysgwr a'ch cwrs cyntaf, cliciwch ar y botwm '**Ychwanegu newydd**'.

Gwneud cais am grant cyflawniad cymhwyster byr

[< Yn ôl](#)

Gwneud cais am grant ar gyfer cyflawni cymwysterau byr cymeradwy, gan gynnwys NVQs, SVQs, a Thystysgrif Genedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Adeiladu.

Ewch i [dudalen grant cymhwyster byr](#) ar wefan CITB i weld pa gyrsiau sy'n gymwys ar gyfer y grant hwn ynghyd â rheolau eraill gan gynnwys pryd y dylech gyflwyno cais.

Cyn i chi ddechrau

Bydd angen:

- Enw'r Prentis, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, a dyddiad ymuno â'r cyflogwr
- Tystiolaeth o gyflawniad gan y corff dyfarnu y gallwch ei uwchlwytho â'ch cais

Mae'r dystiolaeth hon fel arfer yn gopi o'r dystysgrif cyflawniad ond gallai fod yn e-bost yn hysbysu cyflawniad. Os mai e-bost yw eich tystiolaeth, sicrhewch eich bod yn cadw'r e-bost i'ch dyfais yn gyntaf fel y gallwch ei uwchlwytho yn erbyn y cais.

[Ymgeisio nawr >](#)

[Gwneud cais swmp](#)

Gwneud cais am grant Cyflawniad cymhwyster byr

Cam 1 o 2 - Manylion cais

Cliciwch y botwm 'Ychwanegu newydd' isod i ychwanegu manylion y cwrs cyntaf a'r dysgwr. Parhewch i ychwanegu cymaint o resi newydd ag sydd eu hangen arnoch.

Os byddwch yn cael problemau wrth ddefnyddio'r dudalen hon, efallai y byddai'n [well gennych ddefnyddio'r ffurflen gais unigol](#), neu [uwchlwytho taenlen i lenwi'r ffurflen ar eich rhan](#).

Sicrhewch eich bod yn atodi ac yn dewis tystiolaeth ar gyfer pob rhes y byddwch yn ei chwblhau.

Lanlwythwch dystiolaeth i gefnogi eich cais:	Lanlwythwch y tystiolaeth	Ffeiliau wedi'u lanlwytho: 0	Gwnewch gais i bob rhes	Rheoli ffeiliau				
Ychwanegu newydd	<input type="checkbox"/>	Dangos gwallau yn unig	Cyfanswm gwallau 0	Cyfanswm y ceisiadau 0				
Clirio'r grid								
Gweith...	Dewiswch dystiolaeth	Enw cyntaf y dysgwr	Cyfenw'r dysgwr	Dyddiad geni y dysgwr	Rhif Yswiriant Gwladol	Dyddiad ymuno â'r cy...	Teitl a lefel y cymhy...	Dyddiad cyflawni

Dim rhesi wedi'u dewis.

[|<](#) [<](#) Tudalen 1 o 1 [>](#) [>|](#)

[Cadw a gadael heb gyflwyno](#) [Parhau](#)

6 Byddwch yn cael naidlen gyda'r holl feysydd perthnasol ar gyfer y cais a ddewiswyd.

7 Cwblhewch yr holl feysydd gorfodol a chliciwch ar '**Arbed**'.

8 Wrth fewnbynnu data, os yw unrhyw un o'r meysydd wedi'u hamlinellu mewn coch mae hyn yn dangos bod data'n annilys h.y. dyddiadau anghywir neu fformat YG (NI). Ni fydd y ffurflen yn cael ei chadw nes bod hyn wedi'i gywiro.

Ychwanegu newydd

Enw cyntaf y dysgwr ? Sarah	Cyfenw'r dysgwr ? Sample
Dyddiad geni y dysgwr ? 22/11/1977	Rhif Yswiriant Gwladol ? QQ123456A
Dyddiad ymuno â'r cyflogwr ? 15/03/2015	Teitl a lefel y cymhwyster ? NVQ Lefel 6 Rheoli Safle Adeiladu
Dyddiad cyflawni ? 20/09/2024	

Canslo **Arbed**

9 Bydd y dudalen yn tynnu sylw at unrhyw wybodaeth goll neu wallau dilysu cyn parhau â'ch cais. Os nad oes unrhyw wybodaeth bellach angenrheidiol, byddwch yn dychwelyd i weld y prif ffurflen gais.

10 Cliciwch ar '**Ychwanegu Newydd**' ac ychwanegu cymaint o gofnodion dilynol ag sydd angen.

11 Unwaith y byddwch yn hapus gyda'r holl geisiadau ffurflen gais, ewch i '**Adran 4**'.

Adran 3. Gwneud cais am grant - templed

1 Dewch o hyd a chliciwch ar y deilsen sydd wedi'u labelu '**Gwnewch gais am grant**' ar brif dudalen y porth, o dan **Ceisiadau Grant**.

Croeso i Wasanaethau Ar-lein CITB

Mae'r porth ar-lein hwn yn eich galluogi i gyflwyno a gweld ceisiadau grant, cyrchu adroddiadau grant, ac awdurdod Rydym yn gweithio ar ychwanegu mwy o wasanaethau at y wefan hon dros amser. Wrth gael eu datblygu efallai y bydd gwasanaeth yn ein porth etifeddiaeth ar-lein, ac efallai y gofynnir i chi fewngofnodi eto.

Ceisiadau grant

Gwnewch gais am grant

Gwnewch gais ar-lein am grantiau prentisiaethau, cymwysterau, neu gyrsiau byr.

Fy ngheisiadau grant

Gweld eich ceisiadau grant ar-lein sydd wedi'u cadw neu eu cyflwyno.

2

Dewiswch y grant rydych yn ymgeisio amdano.

Os ydych yn gwneud cais am grant '**cyflawniad cwrs byr**', cewch eich ailgyfeirio i dudalen wahanol. Ewch i **citb.co.uk/cy-gb/lefi-grantiau-a-chyllid/grantiau-a-chyllid/** am help gyda'r grant hwn.

Parhewch yn y canllaw hwn ar gyfer pob grant arall.

Grantiau Prentisiaeth

Presenoldeb Prentisiaeth

Rydym yn talu grantiau am fynychu Prentisiaethau cymeradwy sy'n canolbwyntio ar y sgiliau adeiladu craidd sydd eu hangen ar draws diwydiant.

Cyflawniad Prentisiaeth

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni Prentisiaethau cymeradwy sy'n canolbwyntio ar y sgiliau adeiladu craidd sydd eu hangen ar draws y diwydiant.

Grantiau cymwysterau

Cyflawniad cymhwyster byr

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni cymwysterau byr cymeradwy (sy'n cymryd llai na blwyddyn i'w cwblhau).

Presenoldeb cymhwyster hir

Rydym yn talu grantiau am fynychu cymwysterau lefel uwch cymeradwy (sy'n cymryd mwy na blwyddyn i'w cwblhau).

Cyflawniad cymhwyster hir

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni cymwysterau lefel uwch cymeradwy (sy'n cymryd mwy na blwyddyn i'w cwblhau).

I Mewn i Waith

Rydym yn talu grantiau am brofiad gwaith a gwblhawyd fel rhan o gwrs Addysg Bellach cymeradwy, a chyflogaeth uniongyrchol wedi hynny.

Tystysgrif Crefft Uwch (Yr Alban)

Rydym yn talu grantiau ar gyfer presenoldeb a chyflawniad ar gwrs sy'n arwain at Dystysgrif Crefft Uwch yr Alban.

Grantiau cwrs byr

Cyflawniad cwrs byr

Rydym yn talu grantiau ar gyfer cyflawni cyrsiau byr cymeradwy sy'n canolbwyntio ar y sgiliau adeiladu craidd sydd eu hangen ar draws y diwydiant.

3 Unwaith y byddwch ar y dudalen grant a ddewiswyd, darllenwch y canllawiau a gwnewch yn siŵr bod gennych bopeth sydd ei angen arnoch cyn dechrau ar eich cais.

4 Cliciwch ar y botwm '**Gwneud cais swmp**' a byddwch yn cael y dudalen gais swmp a ddewiswyd.

Gwneud cais am grant cyflawniad cymhwyster byr

[< Yn ôl](#)

Gwneud cais am grant ar gyfer cyflawni cymwysterau byr cymeradwy, gan gynnwys NVQs, SVQs, a Thystysgrif Genedlaethol NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Adeiladu.

Ewch i [dudalen grant cymhwyster byr](#) ar wefan CITB i weld pa gyrsiau sy'n gymwys ar gyfer y grant hwn ynghyd â rheolau eraill gan gynnwys pryd y dylech gyflwyno cais.

Cyn i chi ddechrau

Bydd angen:

- Enw'r Prentis, dyddiad geni, rhif Yswiriant Gwladol, a dyddiad ymuno â'r cyflogwr
- Tystiolaeth o gyflawniad gan y corff dyfarnu y gallwch ei uwchlwytho â'ch cais

Mae'r dystiolaeth hon fel arfer yn gopi o'r dystysgrif cyflawniad ond gallai fod yn e-bost yn hysbysu cyflawniad. Os mai e-bost yw eich dystiolaeth, sicrhewch eich bod yn cadw'r e-bost i'ch dyfais yn gyntaf fel y gallwch ei uwchlwytho yn erbyn y cais.

[Ymgeisio nawr >](#) [Gwneud cais swmp](#)

Gwneud cais am grant Cyflawniad cymhwyster byr

Cam 1 o 2 - Manylion cais

Cliciwch y botwm 'Ychwanegu newydd' isod i ychwanegu manylion y cwrs cyntaf a'r dysgwr. Parhewch i ychwanegu cymaint o resi newydd ag sydd eu hangen amoch.

Os byddwch yn cael problemau wrth ddefnyddio'r dudalen hon, efallai y byddai'n [well gennych ddefnyddio'r ffurflen gais unigol](#), neu [uwchlwytho taenlen i lenwi'r ffurflen ar eich rhan](#).

Sicrhewch eich bod yn atodi ac yn dewis dystiolaeth ar gyfer pob rhes y byddwch yn ei chwblhau.

Lanlwythwch dystiolaeth i gefnogi eich cais: **Lanlwythwch y dystiolaeth** Ffeiliau wedi'u lanlwytho: 0 Gwnewch gais i bob rhes Rheoli ffeiliau

Ychwanegu newydd Dangos gwallau yn unig Cyfanswm gwallau 0 Cyfanswm y ceisiadau 0

Gweith... Dewiswch dystiolaeth Enw cyntaf y dysgwr Cyfenw'r dysgwr Dyddiad geni y dysgwr Rhif Yswiriant Gwladol Dyddiad ymuno â'r cy... Teitl a lefel y cymhwy... Dyddiad cyflawni

Dim rhesi wedi'u dewis.

[|<](#) [<](#) Tudalen 1 o 1 [>](#) [>|](#)

[Cadw a gadael heb gyflwyno](#) [Parhau](#)

5 Cliciwch '**Uwchlwytho taenlen i lenwi'r ffurflen ar eich rhan**'.

6 Yna, byddwch yn cael naidlen '**Llwythiad swmp trwy dempled**'.

7 Cliciwch '**Lawrlwytho templed**' a sicrhau ei fod yn cael ei gadw i'ch dyfais.

8 Dewch o hyd i'r templed wedi'i lawrlwytho ar eich dyfais ac agorwch y ffeil.

Cam 1 o 2 - Manylion cais

Cliciwch y botwm 'Ychwanegu newydd' isod i ychwanegu manylion y cwrs cyntaf a'r dysgw. Parhewch i ychwanegu cymaint o resi newydd ag sydd eu hangen amoch.

Os byddwch yn cael problemau wrth ddefnyddio'r dudalen hon, efallai y byddai'n [well gennych ddefnyddio'r ffurflen gais unigol](#), neu [uwchlwytho taenlen i lenwi'r ffurflen ar eich rhan](#).

Sicrhewch eich bod yn atodi ac yn dewis tystiolaeth ar gyfer pob rhes y byddwch yn ei chwblhau.

Llwytho i fyny

Llwythiad swmp trwy dempled

Uwchlwythwch daenlen i wneud cais am grant Cyflawniad cymhwyster byr

Sylwch y bydd uwchlwytho taenlen yn trosysgrifo unrhyw resi o ddata rydych eisoes wedi'u hychwanegu at y ffurflen gais. Cyfyngwch eich uwchlwythiad i 100 rhes.

Ar y dudalen hon gallwch uwchlwytho taenlen i lenwi'r ffurflen gais swmp i chi. Dilynwch y camau isod i gwblhau'r broses hon.

[Lawrlwytho templed](#)

Llwythwch y templed gorffenedig i fyny

1. Lawrlwythwch y ffeil templed ar y dudalen hon i'ch cyfrifiadur. Mae'r templed yn amrywio yn ôl math o grant felly gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn defnyddio'r fersiwn gywir.
2. Agorwch y daenlen dempled ar eich cyfrifiadur, ychwanegwch fanylion eich cais, ac yna ei gadw ar eich cyfrifiadur. Cofiwch fod yn rhaid i bob rhes yn y daenlen fod ar gyfer yr un math o grant.
3. Ar y dudalen hon, uwchlwythwch y templed gorffenedig o'ch cyfrifiadur.
4. Ar ôl ei uwchlwytho, cliciwch ar y botwm 'Cwblhau uwchlwythiad' i ddefnyddio'ch ffeil i lenwi'r ffurflen gais swmp.
5. Byddwch yn cael eich dychwelyd at y ffurflen gais swmp. Cywirwch unrhyw wallau a amlygwyd, uwchlwythwch dystiolaeth i gefnogi'ch cais, ac yna parhewch i gyflwyno.


9 Cwblhewch yr holl feysydd ar y templed Excel ac arbedwch y templed wedi'i gwblhau i'ch dyfais.

A	B	C	D	E	F	G
Enw cyntaf y dysgwr	Cyfenw'r dysgwr	Dyddiad geni y dysgwr	Rhif Yswiriant Gwladol	Dyddiad ymuno â'r cyflogwr	Teitl a lefel y cymhwyster	Dyddiad cyflawni
Sid	Sample	11/09/1990	AA987654B	27/10/2021	NVQ Lefel 3 Archwilio Safle	12/11/2024
Sam	Sample	26/02/1985	AA654321B	06/06/2023	NVQ Lefel 6 Rheoli Safle Adeiladu	20/10/2024
Sarah	Sample	22/11/1977		15/03/2015	NVQ Lefel 6 Rheoli Safle Adeiladu	20/09/2024

10 Ewch yn ôl i'r porth a chliciwch ar y botwm '**Llwythwch y templed gorffenedig i fyny**'.

11 Llywio i'r ffolder lle mae'r templed Excel yn cael ei gadw a lanlwytho'r templed sydd wedi'i gwblhau.




12 Bydd enw'r ffeil o'r templed a lanlwythwyd yn ymddangos o dan y botwm '**Llwythwch y templed gorffenedig i fyny**'.



13 Cliciwch ar '**Cwblhau uwchlwythiad**' yn y naidlen.


14 Bydd yr holl resi a gwblheir ar y templed Excel yn lanlwytho i'r ffurflen gais.

15 Mae unrhyw resi sydd â gwybodaeth ar goll neu wallau dilysu yn cael eu nodi gyda marc ebychu coch.

Gweith...	Dewiswch dystiolaeth	Enw cyntaf y dysgwr	Cyfenw'r dysgwr
 	Dewiswch dystiolaeth	Sid	Sample
 	Dewiswch dystiolaeth	Sam	Sample
  	Dewiswch dystiolaeth	Sarah	Sample

16 I weld y rhesi hynny yn unig sydd angen sylw, cliciwch ar y togl o'r enw '**Dangos gwallau yn unig**'.

17 Nawr gallwch newid y rhes trwy glicio ar yr eicon pensil i gywiro'r gwall neu ddileu'r rhes gan ddefnyddio'r eicon sbwriel.



Adran 4. Ychwanegu tystiolaeth

1 Ar y dudalen gais fe welwch sawl rhes wedi'u cwblhau ar y cais swmp.

2 Os ydych chi am ddechrau eto, cliciwch ar y botwm '**Clirio'r grid**'.

Gweith...	Dewiswch dystiolaeth	Enw cyntaf y dysgwr	Cyfenw'r dysgwr	Dyddiad geni y dysgwr	Rhif Yswiriant Gwladol	Dyddiad ymuno â'r cy...	Teitl a lefel y cymhwy...	Dyddiad cyflawni
	Dewiswch dystiolaeth	Sid	Sample	11/09/1990	AA987654B	27/10/2021	NVQ Lefel 3 Archwilio Sa	12/11/2024
	Dewiswch dystiolaeth	Sam	Sample	26/02/1985	AA654321B	06/06/2023	NVQ Lefel 6 Rheoli Safle	20/10/2024
	Dewiswch dystiolaeth	Sarah	Sample	22/11/1977	AA123456B	15/03/2015	NVQ Lefel 6 Rheoli Safle	20/09/2024

Dim rhesi wedi'u dewis.

3 Fe welwch fod y rhesi wedi'u clirio o'r ffurflen gais swmp.

4 Pan fyddwch yn hapus gyda'r rhesi, cliciwch ar '**Lanlwythwch y tystiolaeth**'.

Lanlwythwch dystiolaeth i gefnogi eich cais: Ffeiliau wedi'u lanlwytho: 0

5 Llywiwch i'r dystiolaeth a arbedwyd ar eich dyfais a dewiswch yr holl dystiolaeth rydych chi am lanlwytho. Ar ôl ei ddewis, cliciwch '**Agor**'.

6 Byddwch yn gweld y ffeiliau wedi'u lanlwytho.

Lanlwythwch dystiolaeth i gefnogi eich cais:

Lanlwythwch y dystiolaeth

Ffeiliau wedi'u lanlwytho: 3

Gwnewch gais i bob rhes

Rheoli ffeiliau

7 Ailadroddwch y tri cham uchod os oes mwy o dystiolaeth i lanlwytho.

8 Os yw un darn o dystiolaeth yn berthnasol i bob rhes yn y cais swmp, cliciwch ar y botwm '**Gwnewch gais i bob rhes**'.

Neu

9 Cliciwch ar '**Dewiswch dystiolaeth**' wrth ymyl un o'r rhesi.

Gweith...

Dewiswch dystiolaeth

Enw cyntaf y dysgwr




Dewiswch dystiolaeth


Sid

10 Byddwch yn derbyn naidlen Dewis dystiolaeth.

11 Gwiriwch y blwch ticio a chliciwch '**Dewis**'.



12 Yna, fe welwch fod y dystiolaeth wedi'i chysylltu â'r rhes.



I arbed y cais fel drafft a dychwelyd i'w gwblhau yn ddiweddarach, cliciwch y botwm '**Cadw a gadael heb gyflwyno**'.

Os byddwch yn gadael y dudalen ar unrhyw adeg yn ystod y cais, naill ai trwy ddefnyddio botwm cefn y porwr neu'r ddolen gartref, bydd rhybudd colli data yn ymddangos, ac os byddwch yn parhau i adael y dudalen, bydd angen i chi ddechrau'r ffurflen gais eto.

13

Pan fo tystiolaeth ynghlwm wrth bob rhes ac mae'r holl fanylion yn y cais yn gywir, cliciwch '**Parhau**'.

14

Byddwch yn cael eich cyfeirio at Gam 2 o 2 - **Tudalen manylion ceisiadau**.

15

Darllenwch a chwblhewch yr adran '**Datganiad y Cyflogwr**' a chliciwch ar '**Cyflwyno cais**' i gyflwyno'r cais.

(Sicrhewch eich bod wedi'ch awdurdodi gan eich cyflogwr i wneud y datganiad hwn ar ei ran.)

Drwy gyflwyno'r cais hwn, rydych chi (y cyflogwr) yn gwneud y datganiad a ganlyn.

Ar ôl darllen, deall a derbyn Polisi cyfredol Cynllun Grantiau CITB a gofynion sy'n benodol i bob math o grant, sydd i'w gweld yn citb.co.uk/cy-gb/lefi-grantiau-a-chyllid/grantiau-a-chyllid, rydym yn datgan:

- mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais hwn am grant yn gywir ac yn gyflawn;
- rydym wedi ein hawdurdodi i gwblhau a chyflwyno'r cais hwn;
- ni chyflwynwyd unrhyw gais arall mewn perthynas â'r un dyddiadau mynychu cwrs neu gyflawniad ag y mae'r cais hwn yn ymwneud ag ef;
- bydd ein defnyddwyr gweinyddol ond yn caniatáu mynediad i broffil ein sefydliad o fewn y porth, a'r cymwysiaid sydd ynddo, i unigolion sydd wedi'u hawdurdodi'n briodol i weld unrhyw ddeunydd sydd ar gael iddynt yn ein hadran o'r porth;
- bydd unrhyw ddefnyddiwr y mae ein gweinyddwyr yn caniatáu mynediad iddo ond yn cyrchu'r data personol yn ein hadran ni o'r porth i'r graddau y maent wedi'u hawdurdodi'n gyfreithlon gennym ni i weld a phrosesu data o'r fath; ac
- mae'r cais hwn yn ymwneud â gweithwyr cyflogedig a/neu unigolion eraill sy'n gymwys i gymryd rhan o dan ofnion y cynllun. Mae gennym naill ai eu caniatâd neu sail gyfreithiol arall o dan GDPR y DU ar gyfer rhannu data personol pob un o'r unigolion hynny ac rydym wedi cydymffurfio â'r rhwymedigaethau tryloywder perthnasol o dan GDPR y DU.

Rydym yn cadarnhau bod:

- rydym wedi a byddwn yn parhau i gydymffurfio â Pholisi'r Cynllun Grantiau a gofynion sy'n benodol i bob math o grant gan gynnwys cadw'r holl wybodaeth ategol at ddibenion dilysu, caniatáu ymweliadau archwilio, hysbysu CITB o unrhyw newid sylweddol, ad-dalu unrhyw grant a dalwyd mewn camgymeriad neu a ordalwyd.

Rydym yn deall ac yn cytuno bod CITB (a/neu ei asiantau neu archwilywyr):

- yn cadw'r hawl i gynnal gwiriadau dilysu i sicrhau bod y cais hwn yn ddilys ac yn cael ei wneud yn unol â Pholisi'r Cynllun Grantiau a gofynion penodol;
- gall brosesu data personol a gynhwysir yn y cais hwn yn unol â'n Polisi Preifatrwydd;
- gall atal taliad ceisiadau grant yn y dyfodol neu adennill grant a dalwyd pe bai'r cyflogwr yn torri'r datganiad hwn ac y gallai hyn gynnwys achos cyfreithiol i adennill symiau o'r fath.

Sut mae CITB yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd yr holl wybodaeth a ddarperir i CITB yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Hyfforddiant Diwydiannol 1982, Deddf Diogelu Data'r DU 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU, fel y'u disodlwyd, eu diwygio neu eu diweddaru, fel y bo'n berthnasol.

Bydd y wybodaeth a roddwch i CITB wrth gwblhau'r cais hwn yn cael ei defnyddio at ddibenion sy'n gysylltiedig â holl swyddogaethau CITB fel Bwrdd Hyfforddiant Diwydiannol.

Mae'r dibenion hyn wedi'u nodi yn ein Polisi Preifatrwydd ar ein gwefan yn citb.co.uk/cy-gb/dolenni-defnyddiol/polisi-preifatrwydd

Yn ôl i Gam 1 - Manylion y cais

Cyflwyno Cais

16

Byddwch yn derbyn cadarnhad bod y cais wedi'i gyflwyno, ynghyd â gwybodaeth am y camau nesaf yn y broses ymgeisio.

Mae ID A2000037227 y Cais wedi'i gyflwyno

Diolch am gyflwyno'ch cais am grant.

Ein nod yw prosesu ceisiadau grant o fewn pedair wythnos i'w cyflwyno. Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, neu os oes angen unrhyw fanylion ychwanegol, byddwn mewn cysylltiad.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am eich cais, cysylltwch â ni ar levy.grant@citb.co.uk neu **0344 994 4455**, a dyfynnwch y cyfeirnod uchod.

[Yn ôl i Gartref](#)